



Tafarn Gymunedol

ASTUDIAETH ACHOS



I Yr Heliwr Nefyn



I Tafarn gyda nodau cymdeithasol

Tafarn gymunedol yw Yr Heliwr, a sefydlwyd gan wirfoddolwyr, gyda'r nod o ddod â gwerth cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd i dref Nefyn a'r cyffiniau.

Mae'r 'Sportsman', ei hen enw, yn dafarn a gwesty hanesyddol sy'n dyddio o ganol y 19eg ganrif. Mae wedi ei leoli yn hen ardal gadwraeth Nefyn.

Roedd y dafarn yn rhan bwysig o fywyd cymdeithasol Nefyn am genedlaethau lawer, nes iddi gau yn 2009, ynghyd â nifer o siopau a busnesau lleol eraill ar Stryd Fawr y dref.

Yn 2018, cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus i drafod y posibilrwydd o brynu ac ailagor y dafarn fel menter gymunedol. Roedd y gefnogaeth yn amlwg ac roedd dros 80 o drigolion yn bresennol, gan lenwi'r ystafell gyda brwdfrydedd a syniadau. Yn fuan wedyn, crëwyd pwyllgor i arwain y prosiect, a sefydlwyd Cymdeithas Budd Cymunedol i redeg Yr Heliwr.

Lansiwyd cynnig cyfranddaliadau ym mis Mai 2018 a buddsoddodd dros 500 o gyfranddalwyr dros £80,000 i brynu'r adeilad, a brynwyd gan y gymuned ym mis Tachwedd 2018. Comisiynwyd cynllun busnes i ddatblygu camau nesaf y fenter.

Community Pub

CASE STUDY



I ddatblygu'r prosiect ac adnewyddu'r hen dafarn, cododd Yr Heliwr £500,000 wrth nifer o sefydliadau: Llywodraeth Cymru, Cyngor Gwynedd, Calor Gas, y Loteri Genedlaethol a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Dechreuodd y gwaith adeiladu ym mis Chwefror 2020, ac ail agorodd Yr Heliwr i'r cyhoedd ym mis Gorffennaf 2021.

I Tafarn gyda diben cymdeithasol



Fel rhan o'u cynllun budd cymunedol ac effaith gymdeithasol, mae'r dafarn yn trefnu ac yn rhedeg amrywiaeth o brosiectau sy'n helpu i gefnogi a datblygu potensial pobl leol.

Mae'r gweithgareddau rheolaidd hyn yn hybu cynhwysiant ac yn annog pobl o bob oed i gwrdd ac i ddysgu sgiliau newydd. Gall bod mewn cymuned wledig fod yn heriol; mae'r cymorth hanfodol hwn yn aml yn helpu i leihau ynysigrwydd cymdeithasol ac mae'n helpu rhai pobl i oresgyn teimladau o unigrwydd.



I Mae prosiectau a gweithgareddau yn cynnwys:

- Nosweithiau cymdeithasol i ddysgwyr Cymraeg
- Boreau coffi a chacen
- Gweithdai celf a chrefft i blant
- Clwb gwau a chrosio
- 'Cegin Deuluol'
- Caffi digidol i helpu pobl i ddysgu sgiliau TG newydd

I Gardd Gymunedol

Yn 2021 derbyniodd y dafarn £15,000 wrth Adfywio Cymru a'r Loteri Genedlaethol i sefydlu gardd gymunedol ar ddarn o dir a gafodd ei roi yn Nefyn. Nid yn unig y mae'r ardd yn darparu bwyd i'r gwirfoddolwyr a chegin Yr Heliwr, ond mae hefyd yn rhoi cyfle i bobl leol weithio ar ddarn o dir ac i dyfu eu cynnyrch eu hunain. Yn ogystal, mae'r ardd yn gartref ac yn amgylchedd delfrydol ar gyfer bywyd gwyllt a phlanhigion brodorol.



I Celfyddydau a Diwylliant

Un prif amcan yw gwarchod a hyrwyddo'r Gymraeg a threftadaeth Cymru, felly mae Yr Heliwr yn cynnal digwyddiadau rhad ac am ddim rheolaidd sy'n agored i unrhyw un sydd â diddordeb mewn dysgu mwy am ddiwylliant lleol.

I Cegin Deuluol

Yn sgil yr argyfwng costau byw, mae tîm Yr Heliwr yn ymwybodol bod arian yn dynn ym mhob cymuned ar hyn o bryd. Gyda hynny mewn cof, maen nhw bellach yn cynnal Cegin Deuluol fisol sy'n cynnig pryd poeth, blasus a maethlon wedi'i baratoi gan y cogydd gyda model 'talw be dymunwch'. Mae'r holl elw yn mynd i'r banciau bwyd lleol ac mae'r rhoddion yn helpu i gefnogi teuluoedd eraill.

I Mae Yr Heliwr gymaint mwy na thafarn yn unig

Dywedodd Eifion Davies, aelod o bwyllgor Tafarn yr Heliwr: "Amcan y gymdeithas sy'n rhedeg y dafarn gymunedol yw wastad bod o fudd i gymuned Nefyn a'r cyffiniau.

Drwy ddatblygu'r dafarn, ein nod yw lleihau unigrwydd, gwarchod y Gymraeg a threftadaeth ddiwylliannol leol, yn ogystal â chynnig cyflogaeth, cyfleusterau twristiaeth a defnyddio gwasanaethau'r dafarn yn gyffredinol er budd y gymuned mewn unrhyw ffordd bosib."



Plunkett
Foundation

www.plunkett.co.uk

Ble bynnag rydych chi yn y DU, os oes gennych chi diddordeb mewn dechrau neu ddatblygu tafarn gymunedol, cysylltwch â Sefydliad Plunkett Plunkett - **01993 630022**, info@plunkett.co.uk neu ewch i www.plunkett.co.uk i gael gwybod sut y gallwn ni eich cefnogi.

Mae Sefydliad Plunkett yn helpu cymunedau gwledig ledled y DU i fynd i'r afael â'r problemau y maent yn eu hwynebu drwy hyrwyddo a chefnogi busnes cymunedol. Yn ogystal â datblygu a diogelu asedau a gwasanaethau gwerthfawr, mae busnesau cymunedol yn mynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion gan gynnwys ynysu, unigrwydd, lles, gwaith a hyfforddiant.

Os ydych yn rhannu ein gweledigaeth ar gyfer economi wledig fywiog gyda busnes cymunedol gwledig yn ganolog iddi, beth am ymuno â Plunkett fel aelod? Mae mwy o wybodaeth am ein pecynnau aelodaeth ar gael yma.